


Ein gweledigaeth

Craffu ar bolisi a deddfwriaeth, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y Gymraeg, diwylliant, y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, yr amgylchedd hanesyddol, cyfathrebu, darlledu, chwaraeon a chysylltiadau rhyngwladol.



Ein hamcanion

- Gweithredu fel cyfaill beirniadol i Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, a chraffu ar y broses o gyflawni'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio
- Craffu ar weithgarwch Llywodraeth y DU a chyrff perthnasol eraill yn y DU sy'n ymwneud â Chymru
- Sicrhau bod ystod o leisiau gwahanol yn cael eu clywed ar faterion sy'n effeithio arnynt
- Gweithredu'n dryloyw ac yn hygyrch yn ein holl weithgareddau er mwyn sicrhau bod cynnydd ein gwaith yn agored ac yn glir i bawb



Ein gwerthoedd

- Hyrwyddo'r sectorau sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl, a gweithredu fel hyrwyddwr ar eu rhan
- Gweithio i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad cyfartal at ddiwylliant, y celfyddydau, treftadaeth, y Gymraeg a chwaraeon, yn ogystal â chyfle cyfartal i gyfrannu atynt
- Ysgogi newid drwy fod yn heriol, yn effeithiol ac yn adeiladol yn ein gwaith craffu

Byddwn yn gwneud hyn drwy gymryd y camau a ganlyn:



Sefydlu a chynnal perthynas ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu cynrychioli yn ein gwaith



Sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan brofiadau bywyd go iawn, a hynny drwy gyfarfod pobl o wahanol gefndiroedd ledled Cymru a dysgu gwersi ganddynt ar lawr gwlad



Sicrhau ein bod yn hygyrch i'r holl randdeiliaid drwy normaleiddio dull gweithredu hyblyg, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd hybrid fel gofyniad safonol



Darparu asesiad gonest o'n perfformiad drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddiwedd pob tymor yr haf



Sicrhau tryloywder drwy gyhoeddi blaengynllun gwaith ar ddechrau pob mis Medi

